

ADBORTH YR YMGYNGHORIAD – POLISI DYRANNU

Ymgynghorai	Maes Polisi	Adborth	Ymateb
Grŵp Gwella Gwasanaethau	Llenwi Ffurflen Gais	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi cyfarwyddiadau pendant - ymgeiswyr i lenwi pob adran ar y ffurflen, hyd yn oed os yw hyn yn golygu nodi 'amherthnasol' 	Mae hyn wedi ei gynnwys yn y polisi a bydd hefyd yn cael ei gynnwys yn y llyfryn sy'n rhoi cyngor ar sut i wneud cais am dai.
Ymgeisydd am Dai	Y System Fandio	<ul style="list-style-type: none"> • Yn cytuno â'r defnydd ychwanegol o amser aros ar y rhestr i roi blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny sydd angen tai 	Nodwyd y sylwadau
Ymgeisydd am Dai	Y System Fandio	<ul style="list-style-type: none"> • Yn cytuno â'r defnydd ychwanegol o amser aros ar y rhestr i roi blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny sydd angen tai 	Nodwyd y sylwadau
Ymgeisydd am Dai	Y System Fandio	<ul style="list-style-type: none"> • Ymholiad ynglŷn â rhoi llai o flaenoriaeth i berchen-feddianwyr. A fyddai'r cynnig hwn yn eithrio perchen-feddianwyr rhag gwneud cais am dai Cyngor? 	Esboniwyd na fyddai perchen-feddianwyr yn cael eu heithrio rhag gwneud cais am dai ond byddai llai o flaenoriaeth yn cael ei rhoi iddynt os penderfynwyd bod hynny'n rhesymol, ar ôl ystyried amgylchiadau'r ymgeisydd.
Cymdeithas Tai Clwyd Alyn	System Fandio	<ul style="list-style-type: none"> • Yn cytuno â'r syniad ehangach o ystyried amser aros. 	

<p>Cymdeithas Tai Clwyd Alyn (parhad)</p>	<p>Cysylltiad Lleol</p> <p>Strwythur</p> <p>Gwybodaeth i Ymgeiswyr</p> <p>Dewisiadau o ran Tai</p> <p>Math o Eiddo</p> <p>Rôl Aelodau Lleol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwnaed pwyntiau eraill ynglŷn ag ystyried amgylchiadau unigol. • Mae Clwyd Alyn yn ystyried hyn yn llwyddiant cadarnhaol. Mae system fandiog'r Gymdeithas yn bodoli er 2008. • Mae 3 blynedd yn rhy hir a gallai arwain at herio penderfyniadau ar y sail bod Cysylltiad Lleol yn chwarae rhan anghymesur yn y broses ddyrannu. • Mae'r prif benawdau yn briodol ac yn berthnasol. • Yn ymddangos yn addas ac yn briodol i'r pwrpas. • Roedd yn dda gweld y bydd cyngor yn cael ei gynnig o ran y dewis o dai sydd ar gael. • Mae'r wybodaeth am ddyraniadau a maint eiddo mor eglur â phosibl ond ni cheir unrhyw gyfeiriad at fforddiadwyedd. • Gellid rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau bod y polisi yn cael ei weithredu'n gyfartal ac yn deg. I'r perwyl hyn, os oes rhaid cynnwys yr holl fanylion, byddai'n well gosod y datganiad sy'n ymwneud â'r gyfraith ar y mater hwn ar ddechrau'r adran hon. 	<p>Mae'r rheol cysylltiad lleol 3 blynedd wedi bodoli er 2011. Dangosodd ymarferiad fod gan mwyafrif yr ymgeiswyr y rhoddwyd cartref iddynt gysylltiad lleol o 3 blynedd neu fwy.</p> <p>Diwygiwyd y polisi yn 4.2 – Cyfateb Ymgeiswyr i'r Eiddo.</p>
---	---	---	---

Ymgynghorai	Maes Polisi	Adborth	Sylwadau
Tai Pawb	Cyfathrebu gydag Ymgeiswyr	<ul style="list-style-type: none"> Gorddibyniaeth ar y ffurf ysgrifenedig. Os oes dyletswydd gyfreithiol i ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig, dylid cynnwys datganiad yn nodi y bydd ar gael yn y Gymraeg/Saesneg neu unrhyw iaith arall os gofynnir amdani. 	Gwybodaeth ychwanegol i'w chynnwys yn adran 1.4 – Cydraddoldeb
	Monitro	<ul style="list-style-type: none"> Ni cheir unrhyw fanylion sy'n nodi sut y caiff y polisi ei fonitro i sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael ei drin yn deg. Rhoddir pwyntiau i nodi pa grwpiau y dylid eu monitro. Dylai manylion am yr wybodaeth sydd i'w chasglu gael eu cynnwys ar ddechrau'r polisi o dan yr adran cydraddoldeb. 	
	Cymhwysedd	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r polisi yn datgan y bydd ymgeisydd yn gymwys am dai ar ôl preswyllo'n ddi-baid mewn ardal am dros 2 flynedd. Dylid newid hyn gan ei fod yn groes i God Canllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r Cod yn nodi y dylai unigolyn o dramor fod wedi preswyllo'n ddi-baid yn y Deyrnas Unedig am 2 flynedd neu lai. 	Gwiriwyd hyn yn erbyn Cod Llywodraeth Cymru a newidiwyd y polisi drafft.
	Cysylltiad â'r Gymuned a'r Fwrdeistref	<ul style="list-style-type: none"> Argymhell y dylai rhywun a gaiff ei wasgaru ar sail 'dim dewis' gael Cysylltiad Lleol ag unrhyw le arall yn y Fwrdeistref Sirol Gallai Cysylltiad â'r Gymuned a'r Fwrdeistref gael effaith negyddol o bosibl. Gallai rhoi mwy o flaenoriaeth i bobl sydd eisoes mewn cymuned atal cymunedau rhag datblygu a dod yn leoedd mwy amrywiol yn naturiol. 	Dyma'r achos yn y polisi drafft. Mae ardaloedd Cymuned yn cwmpasu mwy nag un anheddiad. Felly, gellir mynd i'r afael â'r pryder hwn eisoes.
	Eiddo a Addaswyd	<ul style="list-style-type: none"> Gallai'r polisi cysylltiad lleol gael effaith andwyol ar y bobl hynny sydd angen eiddo a addaswyd os nad oes eiddo o'r fath ar gael. 	Byddir yn mynd i'r afael ag achosion o'r fath

<p>Tai Pawb (parhad)</p>	<p>Gwneud Amodau Tai yn Waeth yn Fwriadol</p> <p>Cyfalaf Digonol</p> <p>Maint yr Eiddo</p> <p>Llety Gwarchod</p> <p>Tai â Chymorth</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gallai hyn gael effaith negyddol ar y bobl hynny sy'n symud i dderbyn gofal. Ni ddylid ystyried budd-daliadau anabledd. Os yw gwahaniaeth ym maint yr eiddo y gellir ystyried unigolyn hŷn ar ei gyfer yn ymwneud â phroffil llety i bobl dros 60 oed, dylid gwneud hyn yn amlwg yn yr adran berthnasol. Rhoi esboniad o ystyr y term 'bregus/agored i niwed' A fyddai gofyn i bobl ddarparu llythyr yn nodi eu bod yn barod i symud ymlaen yn anfanteisiol i ymgeiswyr anabl? 	<p>ond yn cystadlu â'r bobl eraill sydd eisoes yn y band hwnnw oherwydd angen meddygol difrifol</p> <p>Dylid defnyddio'r sancsiwn hwn dim ond os yw'n rhesymol i wneud hynny.</p> <p>Tynnwyd y trothwy arian parod.</p> <p>Diwygiwyd.</p> <p>Newidiwyd y term i gynnwys 'aseswyd bod ganddynt angen am y math hwn o lety'.</p> <p>Caiff y llythyr ei ddarparu gan y gweithiwr/darparwr cymorth nid yr</p>
------------------------------	--	--	---

Tai Pawb (parhad)	Tai a Addaswyd	<ul style="list-style-type: none"> Ni chyfeirir rhyw lawer at ddymuniadau a dyheadau'r unigolion hyn yn yr adran hon. Awgrymir y dylid cyfeirio at themâu Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru. 	ymgeisydd. Gwaith parhaus i'w gynnwys yn yr adolygiad 12 mis.
	Polisi Gosod Tai Lleol	<ul style="list-style-type: none"> Newid y cyfeiriad at y Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 	Diwygiwyd y polisi
	Gwrthod cynigion	<ul style="list-style-type: none"> Os caiff llety ei wrthod oherwydd nodwedd a ddiogelir yna dylid ystyried nad oedd y cynnig yn un rhesymol. 	Mae hawl i gael adolygiad (rhesymoldeb gwrthodiad ac ati)
	Cais am adolygiad	<ul style="list-style-type: none"> Mae angen mwy o wybodaeth ynglŷn â sut i wneud cais am adolygiad neu apêl. Dylid ystyried dulliau gwahanol o wneud cais o'r fath ar wahân i gais ysgrifenedig. 	